

Llywodraeth Cymru

Ynglŷn â Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru - yn gweithio i helpu i wella bywydau pobl Cymru a gwneud y wlad yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo. Yn unol ag Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cyfrifoldebau datganoledig yn cwmpasu'r rhan fwyaf o feysydd o fywyd cyhoeddus yn cynnwys iechyd, addysg, datblygu economaidd, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cyflwyno cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r canlyniadau y mae'n gweithio tuag atynt.

Sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data'r cyfrifiad

Caiff ystadegau'r cyfrifiad eu defnyddio'n unigol neu ar y cyd â data arall er mwyn helpu i wneud penderfyniadau, ymchwilio a thrafod, asesu effeithiolrwydd gweithgareddau allweddol, perfformiad a gwerth am arian. Yn arbennig, defnyddir y data fel a ganlyn:-

- **Dyrannu adnoddau** - arian ar gyfer llywodraeth leol, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, Grant Bloc Llywodraeth Cymru yn ogystal â chynigion ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewrop. Mae'r newidiadau arfaethedig i drefniadau ariannol Llywodraeth Cymru (argymhellion a gafwyd yn adroddiad Comisiwn Silk a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012) a chyllid y gwasanaeth iechyd yn debygol o gynyddu'r angen am ddata ar y boblogaeth a'i nodweddion.
- **Datblygu/Monitro/Adolygu Polisiâu** - gosod y sylfaen ar gyfer strategaethau a chynlluniau fel 'Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi', 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb' yn ogystal â pholisïau i ysgogi twf a swyddi. Mae angen newidynnau poblogaeth a newidynnau cymdeithasol-ddemograffig penodol er mwyn datblygu a gwerthuso Cynlluniau Integredig Unigol ac asesu cydraddoldeb ac effeithiau eraill deddfwriaeth, polisïau ac arferion arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chaiff gwybodaeth o'r cyfrifiad am y Gymraeg ei defnyddio'n eang i lunio a monitro'r strategaeth iaith Gymraeg.
- **Cynllunio/Darparu Gwasanaethau** - cynllunio, blaenoriaethu a gwella gwasanaethau, cefnogi buddsoddiadau, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch prif raglenni a seilwaith. Mae data'r cyfrifiad yn darparu sylfaen dibynadwy a chadarn ar gyfer asesu gofynion newidiol, dadansoddi anghenion parhaus, dylunio a thargedu ymyriadau a gwerthuso effeithiolrwydd a thrwy hynny helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni canlyniadau gwell a sicrhau gwerth am arian.
- **Gofynion dadansoddol eraill** - mae amrywiaeth o fesurau yn cynnwys dadansoddiadau fesul grŵp economaidd-gymdeithasol a gwahanol ddimensiynau cydraddoldeb yn dibynnu ar ddata'r cyfrifiad. Mae nifer o Ddangosyddion y Rhaglen Lywodraethu, Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Perfformiad Statudol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad neu amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth fel enwaduron. Yn ogystal, caiff data'r cyfrifiad a data arall ar y boblogaeth ei ddefnyddio i lunio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a sicrhau ei ansawdd, er mwyn llunio amcanestyniadau is-genedlaethol o gartrefi a phwysoli ymatebion i arolygon fel Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Iechyd

Gofynion data

Ceir gofyniad polisi parhaus i asesu dosbarthiad gofodol yr angen am wasanaethau cyhoeddus a'u budd. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi pwysigrwydd cael data cyson a chymaradwy ar niferoedd y boblogaeth a'i nodweddion ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd daearyddol bach yn cynnwys Ardaloedd Allbwn Uwch haen Ganol ac Is.